# Adroddiad Arolygu

**Nicola Mantegna**

**Port Talbot**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

## Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Gorffennaf 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus iawn yn y lleoliad hwn. Maent wedi meithrin cydberthnasau cryf a chadarnhaol â'r gwarchodwr plant a'u cyfoedion. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser ac yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn hyderus.

Mae'r amgylchedd yn un gofalgar ac mae'r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion unigol y plant yn llwyddiannus. Maent yn cael budd o dderbyn gofal gan warchodwr plant profiadol, cynnes a magwrus. Mae gan y gwarchodwr plant ddisgwyliadau uchel ac mae'n rhannu ei gwerthoedd am ddysgu ac ymddygiad â'r plant.

Mae'r plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Mae cydbwysedd da rhwng cadw'r plant yn ddiogel rhag niwed a'u helpu i gymryd risgiau. Mae'r teganau a'r cyfarpar chwarae yn briodol o ran oedran y plant ac mewn cyflwr da.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol. Mae gan y gwarchodwr plant ddogfennau, cofnodon a pholisïau priodol i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'n deall ei rôl a'i chyfrifoldebau. Mae'r gwarchodwr plant yn cydweithio'n briodol â'r rhieni i roi gwybodaeth iddynt am y gwasanaeth yn ogystal ag am lesiant a gofal y plant.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus iawn. Maent yn gofyn cwestiynau ac yn gwneud ceisiadau, gan wybod y cânt eu gwerthfawrogi ac y byddant yn cael ymateb. Er enghraifft, gofynnodd y plant a allent newid y gweithgaredd o robin goch i baun, a gweithredodd y gwarchodwr plant yn unol â'u cais. Gall y plant ddilyn eu diddordebau eu hunain, a chaiff hyn ei annog. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi cymorth gofalus iddynt wrth iddynt archwilio eu hamgylchedd a'r gweithgareddau.

Mae'r plant wedi setlo, yn hapus ac wedi ymlacio drwy gydol eu hamser yng nghartref y gwarchodwr plant. Maent yn archwilio'r adnoddau a'r teganau sydd ar gael iddynt yn hyderus. Er enghraifft, roedd y plant yn mwynhau edrych ar yr addurniadau a'r ategolion Nadolig roedd y gwarchodwr plant wedi'u harddangos, gan ddangos parch wrth eu trin a'u trafod. Mae'n amlwg bod gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn, maent yn meithrin cydberthnasau cryf ac maent yn gyfarwydd iawn â'r arferion dyddiol. Maent yn gwybod ble i fynd a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Er enghraifft, roedd y plant ar ôl ysgol yn gwybod y drefn wrth dreulio amser yn yr ardal gemau amlddefnydd, gan aros am ganiatâd gan y gwarchodwr plant cyn mynd y tu allan i'r ffens.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn dda iawn, a hynny'n gyson, ac mae'r plant yn cydweithredu'n dda. Dangosodd y plant lawer o barch tuag at y gwarchodwr plant a'r teganau a'r adnoddau a oedd ar gael iddynt. Ceir cydberthnasau cynnes iawn ac mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i'w gilydd. Er enghraifft, roedd y plant hŷn yn helpu ac yn annog ei gilydd wrth chwarae pêl-droed.

Mae'r plant yn dangos gwir ddiddordeb ac yn frwdfrydig wrth chwarae a dysgu. Maent yn ymateb mewn ffordd gyson gadarnhaol i'r gwarchodwr plant a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig, gan wenu a chwerthin wrth chwarae. Mae'r plant yn canolbwyntio ar weithgareddau am gyfnod o amser sy'n briodol ar gyfer eu hoedran. Maent yn dangos ymdeimlad sylweddol o gyflawniad wrth ymgymryd â thasgau'n llwyddiannus. Er enghraifft, gwenodd un plentyn yn falch wrth iddi helpu i roi hetiau Nadolig ar ben y gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i gychwyn eu chwarae eu hunain. Gallant ddylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau gan mai gweithgareddau o dan arweiniad y plant sy'n cael blaenoriaeth. Mae'r plant yn cael amser i archwilio'r hyn sydd o'u cwmpas a chânt ryddid i addasu eu chwarae. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol, sy'n datblygu eu sgiliau cyffredinol. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i feithrin sgiliau annibyniaeth. Er enghraifft, gofynnir iddynt "*Can you put things away for me? Can you wipe your face?*"

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant, ac yn eu rhoi ar waith. Mae'n atgoffa'r plant yn rheolaidd i gadw'n ddiogel, gan gynnwys pan fyddant yn cerdded o'r ysgol i'r cartref. Mae'n goruchwylio'r plant yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y plant yn gwrando ar ei chyfarwyddiadau. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn arferion hylendid priodol. Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl o ran cadw'r plant yn ddiogel ac atebodd yn hyderus wrth drafod beth y byddai'n ei wneud mewn senario diogelu.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymateb yn gyson; mae'n gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'n defnyddio strategaethau sy'n briodol o ran oedran ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Er enghraifft, wrth dacluso, defnyddiodd hiwmor a thechnegau tynnu sylw er mwyn gwneud yn siŵr bod y plant yn helpu. Mae'r gwarchodwr plant yn fodel rôl ardderchog. Er enghraifft, mae'n annog y plant i ddweud os gwelwch yn dda a diolch yn rheolaidd, gan wneud hyn ei hun wrth siarad â'r plant. Mae'n defnyddio tôn ysgafn ac yn dangos diddordeb gwirioneddol yn y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Mae'n arsylwi ar gynnydd yn rheolaidd, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni. Mae'n annog y plant i ddysgu drwy gynllunio amrywiaeth o weithgareddau, gan eu haddasu i weddu i anghenion neu ddiddordebau'r plant a chan ofyn i'r plant am awgrymiadau. Er enghraifft, mae'n creu rhestr o syniadau'r plant ar gyfer gweithgareddau yn seiliedig ar thema. Mae'n ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae a dysgu, gan gynnwys rhai sy'n datblygu eu dealltwriaeth greadigol, eu dealltwriaeth ddychmygol, eu dealltwriaeth gorfforol a'u dealltwriaeth o'r amgylchedd lleol. Mae'r gwarchodwr plant yn dangos i'r plant sut i wneud y gweithgareddau, gan sicrhau eu bod yn deall y gweithgaredd cyn caniatáu iddynt roi cynnig arno eu hunain. Er enghraifft, dangosodd sut i roi eitemau ar lanhawr pibelli, gan siarad yn araf ac yn glir â chyfarwyddiadau cam wrth gam cyn dweud wrth y plant i roi cynnig arni eu hunain. Mae'n defnyddio cwestiynau penagored, gan annog chwilfrydedd y plant a dilyn eu harweiniad.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae'n cynnal gwiriadau diogelwch rheolaidd, yn ogystal ag ymarferion tân. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig amrywiaeth o ardaloedd i'r plant eu harchwilio, ac yn sicrhau bod y plant yn ymwybodol o unrhyw ardaloedd na allant eu defnyddio. Er enghraifft, nid yw'r plant yn cael mynd i'r gegin heb ofyn ac mae'r plant yn ymwybodol iawn o'r cyfyngiad hwn. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau asesiadau cyffredinol ac asesiadau risg tân effeithiol a chywir, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u rhoi ar waith. Mae'n cynnal asesiadau risg gweledol dyddiol ac yn goruchwylio'r plant yn rheolaidd.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig amgylchedd sy'n cynnwys ardal chwarae dda dan do er mwyn i'r plant symud yn rhydd. Gallant ddefnyddio ystafell chwarae ddynodedig, toiled ar y llawr gwaelod, y lolfa, a'r heulfan. Gall y plant ddefnyddio bron pob ardal yn annibynnol, ac mae'r gwarchodwr plant yn rhoi cymorth i'r plant iau lle ceir risgiau. Er enghraifft, mae'n sicrhau ei bod yn rhoi help llaw i'r plentyn ieuengaf wrth iddi gamu i lawr i'r ystafell chwarae. Mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb. Mae mewn cyflwr da ac yn cynnig cyfleoedd i'r plant gael profiad o amrywiaeth o weithgareddau a heriau. Mae ardal chwarae awyr agored sylweddol sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac sy'n cynnig cyfleoedd chwarae difyr i'r plant. Yn anffodus, oherwydd y tywydd gwael a gafwyd yn ddiweddar, ni chafodd yr ardal awyr agored ei defnyddio yn ystod yr arolygiad. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn defnyddio'r ardal chwarae awyr agored mor aml â phosibl. Mae'n defnyddio ardaloedd chwarae ac atyniadau lleol i alluogi'r plant i ddatblygu sgiliau corfforol ac i ddysgu am eu hardal leol.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig adnoddau a dodrefn o ansawdd da i'r plant. Mae ganddi amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar sy'n addas o ran oedran y plant. Er enghraifft, mae ganddi deganau dychmygol a thegauanau byd bach i'r plant iau a gemau fideo a gemau bwrdd heriol i'r plant hŷn. Roedd y rhain wedi'u storio ar lefelau priodol, gan alluogi'r plant i gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu rhai adnoddau i ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan hyrwyddo cydraddoldeb ac annog ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus iawn ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer ei gwasanaeth. Mae'n cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol ac effeithiol sy'n adlewyrchu'n gywir y gwasanaeth a ddarperir ac sy'n cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ei pholisïau yn aml ac yn sicrhau i raddau helaeth y cânt eu rhoi ar waith yn ymarferol. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu, ni chafodd rhai o'r polisïau eu dilyn yn llawn. Er enghraifft, mae un polisi yn nodi y bydd plant yn golchi eu dwylo ar ôl rhyngweithio â'r ci, ond ni ddilynwyd hyn ar un achlysur. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cofnodion gofynnol yn cael eu cadw'n gywir, gan gynnwys cofnodion yn ymwneud â chaniatâd, contractau, cofnodion damweiniau a chofnodion rhoi meddyginiaethau. Mae wedi rhoi'r holl argymhellion o'i harolygiad blaenorol ar waith.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal hunanwerthusiadau priodol. Mae'n gofyn am awgrymiadau gan y plant a'u rhieni/gofalwyr, ac yn eu rhoi ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn llunio adroddiad priodol ar ansawdd y gofal sy'n tynnu sylw at yr hyn y mae wedi'i wneud yn dda, yn ei barn hi, ac yn nodi sut yr hoffai wella ei gwasanaeth. Mae'n dilyn proses dda wrth ymdrin ag unrhyw bryderon posibl. Mae'n adolygu ei gwasanaeth ac yn rhoi newidiadau ar waith lle bo angen.

Mae'r gwarchodwr plant wedi datblygu diwylliant o ddatblygiad proffesiynnol. Mae wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd ac mae'n cwblhau cyrsiau eraill sy'n cefnogi ei gwaith. Er enghraifft, mae wedi cwblhau cymhwyster pontio i waith chwarae a chwrs atal a rheoli heintiau lefel 2. Mae gan y gwarchodwr plant systemau boddhaol ar waith i ddiweddaru'r gwiriadau addasrwydd, drwy ddefnyddio gwiriad diweddaru blynyddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'n ymwybodol o'i chyfrifoldeb i gwblhau gwiriadau ar gyfer aelodau o'r aelwyd sydd dros 16 oed. Nid yw'r gwarchodwr plant yn mynd dros yr uchafswm a bennwyd ar gyfer ei niferoedd cofrestredig ac mae'n cadw cofnod o'r amseroedd pan fydd plant yn cael gofal ganddi. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu, nid oedd y cofnod o'r plant a oedd yn bresennol yn dangos yr union amseroedd pan oeddent yn bresennol. Ymdriniodd y gwarchodwr plant â'r mater hwn ar unwaith.

Mae systemau'r gwarchodwr plant ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhieni yn ddigonol. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni drwy negeseuon electronig a thrwy adborth llafar dyddiol. Mae gan y gwarchodwr plant gydberthynas waith dda â gwarchodwr plant arall. Rhoddodd y rhieni adborth cadarnhaol iawn am y gwarchodwr plant. Gwnaethant ddweud wrthym ei bod hi'n hyblyg; bod eu plant wrth eu bodd yn dod ati, ei bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni a'i bod yn gwneud llawer iawn o bethau gyda'r plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod yr holl bolisïau yn cael eu dilyn yn llawn a'u bod yn adlewyrchu'r arferion cyfredol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/02/2024